ichthus

CYLCHGRAWN CHWARTEROL EGLWYS BEREA NEWYDD, BANGOR
Rhif 2 Cyfrol 16 Ebrill 2019

www.gofalaethbangor.org - 01248 353132 (swyddfa)

ANRHYDEDD I CYNTHIA

TUD.13

GWASANAETHAU'R SUL

10.00: OEDFA DEULUOL GAN GYNNWYS YSGOL SUL Y PLANT
5.30: OEDFA'R NOS

Mai 5	Gweinidog
Mai 12	Parch. Trefor Lewis
Mai 19	Gweinidog
Mai 26	Parch. Megan Williams
Mehefin 2	Gweinidog
Mehefin 9	Mr. Gwilym Williams
Mehefin 16	Parch. Gareth Edwards
Mehefin 23	Gweinidog
Mehefin 30	Parch. Christopher Prew
Gorff 7	Gweinidog
Gorff 14	Parch. Brian Wright
Gorff 21	Gweinidog
Gorff 28	Parch. Gwenda Richards

DYLETSWYDDAU BLAENOR Y PYTHEFNOS

Mai 5/12	Robat Roberts
Mai 19/26	Gwyn Jones
Mehefin 2/9	Elin Walker Jones
Mehefin 16/23	Cynthia Owen
Mehefin 30	Gwilym Roberts
Gorff 7	Gwilym Roberts
Gorff 14/21	Delyth Oswy Shaw
Gorff 28	Menna Baines
Awst 4	Menna Baines

DYLETSWYDDAU BLAENOR Y DRWS

Mai 5/12	Arfon Evans
Mai 19/26	Elin Walker Jones
Mehefin 2/9	Cynthia Owen
Mehefin 16/23	
Mehefin 30	Wyn Griffiths
Gorff 7	Wyn Griffiths
Gorff 14/21	Menna Baines
Gorff 28	Delyth Oswy Shaw
Awst 4	Delyth Oswy Shaw

RHODDWYR Y BLODAU (Cydlynydd: Elizabeth Roberts - 353915)

Mai 5	Maisie Griffiths
Mai 12	Blodwen Jones
Mai 19	Sara Jones
Mai 26	Cynthia Owen
Mehefin 2	Manon Ogwen
Mehefin 9	Mair Thomas
Mehefin 16	Blodwen Jones
Mehefin 23	Nia Williams
Mehefin 30	Mair Thomas
Gorff 7	Gracie Williams
Gorff 14	Elin Walker Jones
Gorff 21	Eirlys Jones
Gorff 28	Lynn Jones
Awst 4	Sarah Buchann

GAIR GAN Y GWEINIDOG

Y PARCHEDIG ELWYN RICHARDS

...gwnewch eich gorau glas i rymuso eich ffydd â rhinwedd, a'ch rhinwedd â gwybodaeth, a'ch gwybodaeth â hunanddisgyblaeth, a'ch hunanddisgyblaeth â dyfalbarhad, a'ch dyfalbarhad â duwioldeb, a'ch duwioldeb â brawdgarwch, a'ch brawdgarwch â chariad. Oherwydd os yw'r rhain gennych ac ar gynnydd, byddant yn peri nad diog a diffrwyth fyddwch yn eich adnabyddiaeth o'n Harglwydd Iesu Grist. (2 Pedr: 1 5–8)

Aeth y Grawys a'r Pasg heibio, ac mae'r gwanwyn bellach yn dyfod i'w anterth. Fe fydd y garddwyr yn eich plith wedi bod yn brysur ers wythnosau, ac fe ymddangosodd clychau'r gog yn y cloddiau eleni cyn canol Ebrill. Twf, bywyd newydd a gobaith yw nodweddion y gwanwyn, a dyna hefyd nodweddion y gwanwyn ysbrydol a ddwg y Pasg i'r Eglwys.

Newidiodd yr atgyfodiad sefyllfa dilynwyr cyntaf Iesu yn llwyr. Chwalwyd eu gobeithion a darniwyd eu ffydd gan y groes, ac araf iawn oeddynt i sylweddoli arwyddocâd yr atgyfodiad. Ond yr oedd Iesu wedi eu rhybuddio o'r hyn fyddai'n digwydd, ac wedi ceisio eu dysgu sut i fyw yn ôl ei esiampl.
Ar y noson y cafodd ei fradychu bu i Iesu fwyta'r Swper Olaf gyda'i ddisgyblion. Dywed yr efengylau Cyfolwg (Mathew, Marc a Luc) iddo ddefnyddio bara a gwin y noson honno i gynrychioli ei gorff a'i waed, a gorchymyn ei ddisgyblion i barhau i wneud hynny 'er cof amdano'. Nid yw Efengyl Ioan yn sôn am Iesu yn defnyddio bara a gwin yn y ffordd yma, ond yn hytrach yn cyfeirio at Iesu yn clymu lliain am ei ganol ac yn gwneud un o'r tasgau mwyaf distadl y gellid eu dychmygu, sef golchi traed ei ddisgyblion. Mewn gwlad sych a llychlyd gwaith y caethwas fyddai golchi traed ymwelwyr â'r aelwyd, ond mae Iesu yn gwneud hynny ei hun, a does dim rhyfedd i Pedr brotestio; '"Arglwydd, a wyt ti am olchi fy nhraed i?"… "Ni chei di olchi fy nhraed i byth."' (In 13:6,8)

Ond yr oedd Iesu yn benderfynol o ddangos i'w ddisgyblion ystyr gwir ostyngeiddrwydd a natur ei Deyrnas, a thrwy hynny eu hannog i ddilyn ei esiampl wedi iddo ef ymadael. Dyna un wedd ar wyrth yr atgyfodiad – fod yr Eglwys Fore wedi dysgu a dangos 'ffordd ragorach fyth' o fyw.
Ychydig wythnosau yn ôl cafwyd enghraifft drawiadol o hynny unwaith eto pan fu i'r Pab Francis gynnal cynhadledd i geisio heddwch yn Ne Sudan. Enillodd De Sudan annibyniaeth oddi wrth y Gogledd yn 2011, ond erbyn 2013 roedd y wlad wedi ei rhwygo gan ryfel cartref a laddodd o leiaf 400,000 o bobl.

Er mwyn ceisio sicrhau heddwch i'r dyfodol gwahoddodd y Pab Francis Arlywydd y wlad, Salva Kiir, ac arweinydd yr wrthblaid, Riek Machar, ►

► ill dau yn Gristnogion, i gyfarfod arbennig yn y Fatican. Yno penliniodd y Pab a chusanu esgidiau y ddau, ac eraill oedd yn bresennol, gan erfyn arnynt i sicrhau heddwch i'w pobl.

Yn ôl adroddiadau yn y wasg syfrdanwyd pawb oedd yn bresennol gan y fath weithred, yn enwedig y ddau arweinydd. Yr oeddynt wedi eu hysgwyd o weld y Pab, henwr dros ei bedwar ugain oed, yn ymdrechu i benlinio i gusanu eu hesgidiau. Yr oedd Justin Welby, Archesgob Caergaint, yn un o'r cwmni a'i sylw ef wrth ohebydd y BBC ar ddiwedd y cyfarfod oedd bod y Pab nid yn unig yn deall gwerth gweithred symbolaidd, ond hefyd yn gwybod beth yw grym gwendid.

Anfonwn ein cofion at bawb sy'n wael neu'n llesg, a dymunwn Dduw yn nodded ac yn nerth i'r teuluoedd sydd mewn profedigaeth.

CÔR SYNOD MIZORAM YN BEREA

WILLIAM H. OWEN

Fu 'rioed ddim byd tebyg ar lwyfan Berea Newydd. Côr Synod Mizoram o ogledd-ddwyrain yr India oedd yn diddanu gyda'u caneuon eu hunain ac emynau Cymraeg. Roedd y naw ar hugain o aelodau ar daith yng Nghymru ar wahoddiad Côr CF1 o Gaerdydd oedd wedi ymweld â nhw yn yr India dair blynedd yn ôl.

Daethant i Fangor yn rhannol oherwydd eu bod am dalu gwrogaeth i'r diweddar Alwyn a Mair Roberts oedd wedi bod yn gweithio yn eu mysg. Yno y ganwyd Glyn, eu mab. Mynwent Pentir i weld eu beddrod oedd rhan gyntaf eu hymweliad a chanwyd yr emyn 'Diolch i Ti' yn Gymraeg a Mizo ar lan y bedd. Yna mi gyrhaeddon nhw'r festri i fwynhau gwledd yr oedd merched y capel wedi ei pharatoi ar eu cyfer – a Bethan Catrin (merch yng nghyfraith Alwyn a Mair) wedi dod â llond ei hafflau o *chips* iddyn nhw, un o'u hoff fwydydd! Roedd Mrs Mair Thomas, yn 101 oed, wedi adfer ei dawn o wneud crempogau hefyd.

A'r capel dan ei sang, rhan gyntaf y noson oedd y cyflwyniadau pan glywyd am y miloedd sy'n mynychu oedfaon yn Mizoram. Maen nhw'n dal i gofio, yn ddiolchgar, am gyfraniad y cenhadon o Gymru i'w rhan nhw o'r wlad. Y Parchg Nan Wyn Powell-Davies oedd yn arwain i ddechrau a chafwyd gair o groeso gan Nerys Evans, Llywydd yr Henaduriaeth, a Cynthia, Llywydd newydd y Gymdeithasfa yn y Gogledd. Derbyniodd Cynthia rodd ar ran yr eglwys gan Lywydd Synod Mizoram a chyflwynodd lwy garu iddo yntau ar ran Eglwys Berea Newydd.

O'r diwedd cododd y côr i ganu a chafodd neb ei siomi yn eu sŵn a'u symudiadau. Ymhen dim roeddan nhw'n canu yn Gymraeg ac yn geirio'r emynau yn well na sawl côr meibion o Gymru, a chafwyd

cymeradwyaeth fyddarol i 'Calon Lân'. Rhwng eu cyfraniadau daeth ein pobl ni, Lyn Jones, Llio, Owain, Bedwyr a Fflur, ymlaen i gymryd rhan yn canu a chyflwyno darnau offerynnol.

Y Parchg Marcus Wyn Robinson, Ysgrifennydd y Gymdeithasfa yn y Gogledd, a ddiolchodd i bawb a gofyn am gasgliad 'distaw' wrth i'r gynulleidfa adael. Codwyd cannoedd lawer, cyfraniad at daith y côr drwy Gymru. Yn Ninbych-y-pysgod yr oedd honno'n dod i ben 25 Ebrill, wedi iddyn nhw gystadlu yng Ngŵyl Gorawl Ryngwladol Caerdydd.

CYFRANIADAU AELODAU YN YR ADRODDIAD

Mae'r swyddogion wedi penderfynu na fyddwn yn cyhoeddi cyfraniadau unigol aelodau yn Adroddiad Berea Newydd yn y dyfodol.

Rydym wedi derbyn nifer o ffurflenni GDPR yn ôl yn datgan nad oedd rhai aelodau am i ni gyhoeddi swm eu cyfraniadau.

Roeddem yn teimlo felly mai gwell fyddai peidio â dangos unrhyw gyfraniadau unigol. Byddwn yn dal i gofnodi'r cyfraniadau ar gyfer dibenion Rhodd Gymorth a byddwn yn anfon at bob aelod i ddatgan cyfanswm eu cyfraniad ar gyfer y flwyddyn dan sylw.

Bydd gwaith yr eglwys yn dal i ddibynnu ar gyfraniadau'r aelodau a byddwn yn nodi yn yr adroddiad y swm a ddisgwylir gan bob aelod er mwyn cyfarfod â chostau cynnal yr Achos. Gobeithio y bydd y drefn newydd yn diogelu gwybodaeth sensitif ac yn cael eich cefnogaeth fel aelodau.

Y GYMDEITHAS

GARETH TILSLEY

CYFARFOD MIS CHWEFROR: Y PRIFARDD GWION HALLAM, AWEN A DEMENTIA

Gwion Hallam, Prifardd Coronog Eisteddfod Môn 2017, oedd yn ein diddori yn y Gymdeithas ym mis Chwefror. Cafodd ei fagu yn Rhydaman a'i addysg bellach ym Mhrifysgol Aberystwyth ond mae wedi ymgartrefu yn y Felinheli gyda'i wraig Leri a thri o hogiau ers rhai blynyddoedd. Roedd nifer dda o aelodau'r Gymdeithas yn ei adnabod yn dda, gan iddo ef a Leri fyw ym Mhenrhosgarnedd nifer o flynyddoedd yn ôl.

Teitl ei bryddest fuddugol yw Trwy'r Drych, ac ynddi mae'n adrodd ei hanes fel bardd yn ymweld â chartrefi henoed gyda phobl yn dioddef o ddementia gyda'r bwriad o'u cael i fynegi ei hunain trwy gyfrwng barddoniaeth. Mae'n gwrando ar eu hanesion, ac yn eu helpu i greu darnau o gerddi er mwyn rhoi ychydig urddas i'w bywydau, a cheir darlun clir o hyn yn ei gerdd arobryn sydd ar ffurf ymgom rhwng y bardd a'r person sy'n dioddef o dementia.

Dyma hefyd oedd testun ei sgwrs gyda ni yn y Gymdeithas. Eglurodd sut yr oedd yn mynd ati i weithio gyda'r henoed a'u

hysgogi i greu cerddi. Darllenodd rai o'r cerddi a grewyd, gyda'i gymorth ef, gan drigolion y cartrefi, a dangosodd sut yr oedd y cerddi yn galluogi pobl i fynegi eu teimladau a'u syniadau mewn modd nad oedd yn bosib iddynt mewn sgwrs arferol. Darllenodd hefyd ddarnau o'i gerdd fuddugol, a thrwy wneud hynny ein galluogi i ddeall a gwerthfawrogi ei bryddest yn well.

Cawsom baned a bisged fel arfer, a diolch i Ann, Enyd a Margaret am eu gwaith

MASNACH DEG

Cofiwch bob amser ein bod wedi cytuno fel eglwys i ymrwymo i Fasnach Deg, felly cofiwn ddefnyddio cynnyrch Masnach Deg, megis coffi, siwgr a bisgedi, yn ein holl gyfarfodydd.

CINIO GŴYL DEWI

Amser cinio dydd Iau 7fed o Fawrth daeth tua deg ar hugain o aelodau y Gymdeithas ynghyd i ddathlu Gŵyl Ddewi ym Mwyty Hyfforddi Friars. Cafwyd pryd blasus a chwmni diddan, ac mae diolch yn ddyledus i Mrs Elizabeth Roberts, Ysgrifennydd y Gymdeithas, am drefnu'r cyfan, ac i Mr Wyn Griffiths, y Trysorydd, am edrych ar ôl yr arian. Llywyddwyd yr achlysur yn ddeheuig iawn gan Mr Arfon H. Evans a ddiolchodd i bawb am eu cwmni, ac i fyfyrwyr a staff y bwyty am y wledd a'r croeso.

GOFOD GWEDDI

DELYTH OSWY

CWESTIYNAU MAWR

**Mae gan bawb gwestiynau mawr am fywyd.
Beth yw eich cwestiynau mawr chi?
Pe baech yn gallu gofyn un cwestiwn i Dduw y munud yma, beth fyddai?**

Mae Gofod Gweddi mewn Ysgolion yn elusen Gristnogol genedlaethol sy'n galluogi plant, o bob ffydd neu heb ffydd, i ystyried cwestiynau mawr bywyd, ysbrydolrwydd a ffydd mewn ffyrdd diogel, creadigol.

Stafell ddosbarth yw Gofod Gweddi fel rheol, wedi ei thrawsnewid am y dydd, a bydd yr athro yn dod â'r dosbarth i'r Gofod Gweddi am sesiwn.

Caiff ei redeg gan arweinydd o'r capel, drwy gydweithrediad ag ysgol leol, ac mae sawl gweithiwr plant yn yr enwad wedi eu

cynnal. Roedd hyfforddiant Gofod Gweddi yn Berea Newydd ym mis Mawrth. Mae athrawon a rhieni (o bob crefydd neu heb grefydd) yn canmol Gofod Gweddi fel cyfraniad pwysig i'r maes llafur, ac mae'n cynorthwyo'r ysgol i gyflawni'r gofyn statudol i gefnogi datblygiad ysbrydol a moesol plant.

Dyma rai o weithgareddau Gofod Gweddi – gallwch eu defnyddio adre efo'ch plant neu eich wyrion.

GWEDDÏWCH Y NEWYDDION

"Gweddïo yw credu mewn newid."
Pa rai o'r storïau newyddion hyn sy'n dal eich sylw? Sut rydych yn teimlo am y peth?
Sut y byddech yn hoffi i'r sefyllfa hon newid?
Os hoffech, gellwch ysgrifennu neu luniadu sut rydych yn teimlo ynghylch hyn ar y Post-it siâp calon.

LLINYNNAU EDIFAR

Rydym yn cael pethau'n anghywir. Weithiau rydym yn dweud ac yn gwneud pethau sy'n brifo pobl eraill. Dweud ei bod yn ddrwg gennych yw cyfaddef eich bod yn anghywir a bod arnoch eisiau pethau'n iawn eto. Ydach chi angen dweud ei bod yn ddrwg gennych am rywbeth? ***Os 'dach chi eisiau, ysgrifennwch neu tynnwch lun gweddi edifar a'i phegio; peidiwch â defnyddio unrhyw enwau.***

CARREG BYWYD

Cymerwch garreg, meddyliwch am bethau sydd wedi digwydd yn eich bywyd. Rhowch y garreg yn y dŵr a'i gadael yno. Cerddwch i ffwrdd a gofynnwch i Iesu fod gyda chwi yn eich dyfodol.

BYD NEWYDD

Petaet ti'n medru creu byd newydd, sut le fase fo?
Beth fyddai'n aros yr un fath?
Beth faset ti'n ei newid?
Pa reolau faset ti'n eu gosod?
Gelli sgwennu dy feddyliau ar rai o'r nodion Post-it a'u glynu nhw ar y tri phoster. Sut faset ti'n helpu i wneud y byd yn lle gwell?

BYDD YN LLONYDD

Ystyr y gair 'sanctaidd', yn y bôn, yw 'wedi'i neilltuo'.
Am gannoedd o flynyddoedd, mae pobl wedi darganfod bod mynd o'r neilltu oddi wrth bobl eraill yn eu helpu i fod yn fwy ymwybodol ohonynt eu hunain a hefyd o Dduw.
Yn ein byd prysur ni, dydi hynny ddim yn hawdd.
Dyma le i fod yn llonydd. Dyma le 'sanctaidd'.
Does dim angen siarad, dim angen gwneud dim byd.
Dim ond 'bod'.
Os ydi hynny'n anodd i ti, cymera 'Jar Gliter' a'i droi ben i waered, wedyn eistedda a gwylia'r gliter yn disgyn yn raddol i'r gwaelod.

PLANT, IEUENCTID A THEULUOEDD

OWAIN DAVIES

CIC BACH / CIC BANG - TÎM I GYMRU

Nos Wener 15 Mawrth gwahoddwyd y clybiau CIC i barti ffarwelio aelodau Tîm i Gymru yng Nghapel Caersalem, Caernarfon. Cafwyd noson wych gydag amrywiaeth o gemau hwyliog, peli zorb a disgo distaw. Mae'r tîm, sef Gruff, Hannah ac Eleri, a welir yn y lluniau hyn gyda CIC Bach a CIC Bang, wedi bod yn helpu gyda'r clybiau am y chwe mis diwethaf. Diolchwn iddynt am eu holl gyfraniad a dymunwn yn dda iddynt i'r dyfodol.

RHEDWYR BEREA

Ar ddydd Sul 3 Mawrth roedd nifer o aelodau o Berea yn rhedeg 10k/hanner marathon Ynys Môn. Llongyfarchiadau i Peredur Williams (10k) a Nia Cerys (hanner marathon) ar sicrhau'r tri gorffeniad gorau yn eu grwpiau oedran priodol. Da iawn bawb a gymerodd ran. Heb eu cynnwys yn y llun y mae Nia Cerys a'r Cyng Elin Walker Jones, y ddwy wedi cwblhau'r hanner marathon – da iawn!

Rhai o'r rhedwyr llwyddiannus a'u cefnogwyr

OEDFA DEULU BEREA NEWYDD - 17 CHWEFROR

Fore Sul 17 Chwefror cyfunwyd y sôn am Dewi Sant a Chymdeithas y Gwahanglwyf mewn oedfa deulu. Y thema oedd perthyn, a pwysleisiwyd neges Dewi sef y dylem 'wneud y pethau bychain' fydd yn creu perthynas iach rhyngom a'n gilydd. Nid oedd neb am gysylltu â'r deg o ddynion gwahanglwyfus y dywedir yn y TN i Iesu eu hiachau, a dangoswyd llun o ffenestr y gwahangleifion yn Eglwys Pistyll, lle y byddai'r gwahangleifion yn dod i wrando'r offeren ar eu ffordd i Ynys Enlli. Ar ddiwedd yr oedfa cafodd y gynulleidfa gyfle i 'rannu'r tangnefedd', sef ysgwyd llaw. Ni fyddai'r gwahangleifion wedi gallu gwneud hynny yng nghyfnod Iesu, ac ni chân Cristnogion gorllewin Affrica wneud hynny pan ledaenodd haint Ebola yng ngwledydd Sierra Leone, Guinea a Liberia rhwng 2013 a 2016. Yn ystod y gwasanaeth gwnaed casgliad o £185 tuag at Genhadaeth y Gwahanglwyf a hynny'n cael ei ddyblu i £370 trwy gymorth gan y Llywodraeth (UK Aid Match).

NODYN I'R DYDDIADUR

DOSBARTH DERBYN / MOLIANT Y PLANT 2019

Yn ystod yr wythnosau diwethaf cynhaliwyd dosbarth derbyn ar gyfer pump o ieuenctid yr ofalaeth. Bydd y gwasanaeth derbyn yn cael ei gynnal fore Sul 19 Mai ym Merea Newydd fel rhan o oedfa deulu arbennig ar 'batrwm moliant y plant'. Arweinir y gân gan Heddwen Lois Williams a gweinyddir y Cymun. Mawr hyderir y ceir cefnogaeth dda i'r oedfa yma. Dewch i ddangos eich cefnogaeth i'r ieuenctid ac i uniaethu â hwy wrth iddynt addo dilyn Iesu Grist.

GÔL!!!

Nos Lun 8 Ebrill aeth clwb CIC Bach/ CIC Felin/CIC Bang i Ganolfan Brailsford i gael sesiwn pêl-droed. Mi gawsom lawer o hwyl a goliau bendigedig – efallai un diwrnod y bydd rhai o blant y clybiau yn chwarae dros Gymru!

SUL Y BLODAU A'R PASG

Fore Sul y Blodau cafodd y plant ►

CLWB NEWYDD

Mae 'na glwb newydd wedi dechrau, sef Clwb CIC Bach Llai! Clwb misol yw hwn ar gyfer plant iau blynyddoedd ysgol Derbyn, 1 a 2. Rydym eisoes wedi cael dwy sesiwn hwyliog iawn.

► frecwast gyda'i gilydd yn y capel cyn cymryd rhan fel côr, a rhai fel unigolion, yn oedfa deulu Sul y Bodau. Roedd y gwasanaeth, dan arweiniad Owain Davies, yn canolbwyntio ar thema cyfeillgarwch gan bwysleisio pa mor pwysig yw creu perthynas agos gyda Iesu. Wedi'r oedfa bu'r plant yn cymryd rhan yng ngweithgareddau Bwrlwm Pasg Berea tra oedd yr oedolion yn mwynhau paned.

Roedd cyntedd y capel yn edrych yn drawiadol iawn dros gyfnod y Pasg gan fod plant dosbarth Ysgol Sul yr oedran uwchradd wedi bod wrthi'n brysur yn creu murlun papur yn dangos y Groes. (Fe'i gwelir yn y llun sydd ar y clawr.)

CAPEL BETHANIA FELINHELI

OEDFA DEULUOL A THRIP

Ddydd Sul 3 Chwefror cynhaliwyd gwasanaeth teuluol yn Bethania o dan ofal Owain Davies a'r aelodau. Yn dilyn y gwasanaeth, aeth bws o blant a rhieni'r capel i ganolfan bownsio 'flipout' Caer, lle cafwyd amser bendigedig. Yn dilyn yr holl fownsio cafwyd seibiant yn McDonalds a llond ein boliau o fwyd a hufen iâ!

GWNEUD GWAHANIAETH

Ar Ddydd Sul 10 Mawrth cynhaliwyd gwasanaeth teulu o dan ofal y Gweinidog, y Parchg Ddr Elwyn Richards, Owain Davies, Gweithiwr Plant

Ieuenctid a Theuluoedd yr ofalaeth, a'r aelodau. Themâu'r gwasanaeth oedd 'Gwneud Gwahaniaeth'. Yn ystod yr oedfa bu Sian Gwenllian AC yn holi Brengain Glyn Williams am ei hethol i gynrychioli Arfon yn Senedd Ieuenctid Cymru. Cafodd y plant hefyd wisgo dillad coch i arwyddo ein bod newydd ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, a chawsant sgwrs am wneud y pethau bychain sy'n gwneud gwahaniaeth.

CIC FELIN

Mae clwb CIC Felin yn mynd o nerth i nerth, gyda dros 20 o blant yn mynychu'r sesiwn.

Dyma blant CIC yn cael hwyl gyda chystadleuaeth *chopsticks* i ddathlu'r flwyddyn newydd Tsieineaidd. Yr un noson bu Anwen yn dysgu dawnsio Affricanaidd traddodiadol i'r plant.

LLYWYDD NEWYDD

Cafodd Mrs Cynthia Owen ddiwrnod arbennig iawn ar 9 Ebrill. Nid yn unig yr oedd yn ben-blwydd arni ond mewn cyfarfod cyhoeddus y noson honno yng nghapel Rhos-y-gad, Llanfair-pwll, fe gyflwynwyd iddi Lywyddiaeth y Gymdeithasfa yn y Gogledd ar gyfer 2019–20. Roedd y Llywydd blaenorol yn rhoi araith ymadawol a'r Llywyddiaeth yn cael ei gyflwyno i Cynthia. Roedd y Parch. Elwyn Richards yn gweddïo ar ran y Llywydd a'r Parch. Eric Jones yntau'n cymryd rhan ac yn diolch i'r cyn-Lywydd. Roedd y Parch Eric Jones hefyd yn gweinyddu'r cymun yn ystod y cyfarfod ar y diwrnod canlynol. Roedd yn hyfryd gweld nifer dda o aelodau Berea Newydd yn bresennol yn y cyfarfod

ar y nos Fawrth i gefnogi'r Llywydd newydd.

Dymuniadau da iddi yn y swydd.

ENWAU LLEOL

GLENDA CARR

Dyma drydedd ran ein cyfres ar enwau lleoedd yn y cyffiniau.

O GWMPAS CAERNARFON

CRUG

Saif y tŷ solet o'r enw *Crug* gyda'i erddi hardd ar y chwith oddi ar y lôn sydd yn arwain o'r A487 yn Griffith's Crossing rhwng Y Felinheli a Chaernarfon i'r groeslon ar y B4366 ar gyrion Bethel.

Y cyfeiriad cynharaf a welwyd ato yw *Greke in Llanvair* o 1475. Cyfeiriad at y plwyf, sef Llanfair-is-gaer, yw'r *Llanfair.* Ceir *Kay in a Kryke* yn 1584, *Kay in y Crick* yn 1609, *Cae yn y Krug* yn 1612 a *Cay yn y Crŷg* yn 1614. Ar ôl hynny, *Crug* yn syml yw'r enw a byddai'n anodd ymyrryd ryw lawer ag enw mor blaen, er y ceir ambell sillafiad eithaf rhyfedd megis *Kreigg* mewn ewyllys yn 1645. *Crûg House* sydd ar y mapiau Ordnans diweddaraf ac mae tuedd bellach i roi'r acen grom ddiangen ar yr *u.*

Ystyr *crug* yw bryncyn, poncen, neu garnedd. Mae'n elfen gyffredin mewn enwau lleoedd yng Nghymru, e.e. *Yr Wyddgrug, Crug-y-bar, Crucywel.* Mae'r tir yn codi'n gefnen o'r arfordir wrth nesáu at *Crug* o'r A487, a gallai'r enw gyfeirio at y codiad tir hwn. Ar rai mapiau Ordnans, nodwyd bod rhywbeth a ddisgrifid fel 'Camp' ar safle *Crug* ei hun. Ceir nifer o fân henebion yn y cyffiniau a allai fod wedi esgor ar yr enw *Crug.*

ALA LAS

Yn *Y Lôn Wen* mae Kate Roberts yn sôn am ei hoffter o fynd i ymweld â'i modryb Lusa a oedd yn byw gyda'i theulu mewn fferm o'r enw *'Rala* yn Y Waunfawr ryw bedair milltir o Gaernarfon. *'Rala* yw'r ffurf a ddefnyddiai Kate Roberts, ond *Ala Bowl* oedd enw gwreiddiol y fferm hon.

Ffurf lafar yw *ala* ar *alai,* a fenthyciwyd o'r enw Saesneg Canol *alley*. Y fannod, wrth gwrs, yw'r *'r* sydd wedi tyfu ar ddechrau'r enw: mae *Yr Ala* wedi mynd yn *'Rala.* Ystyr *ala* yw llwybr cul, a cheir yr un elfen yn *Ala Las* (Caernarfon), yn *Alafynydd* (Llanfair-yng-Nghornwy), yn *Yr Ala* (Pwllheli) a *Phenyrala* (Tre-garth). Fodd bynnag, o gyfuno *ala* â'r elfen *bowl* mae i'r enw cyfan ystyr neilltuol, sef darn o dir ar gyfer chwarae bowliau. Mae'n debyg mai rhyw rimyn cul oedd yr *ala* a byddai'r gêm o ran ei natur yn debycach i fowlio decpin heddiw na'r bowlio a chwaraeir ar lawnt wastad sgwâr.

Yr un elfen sydd yn *Ala Las* yng Nghaernarfon. Fodd bynnag, nid llain fowlio yw'r ystyr yng Nghaernarfon, ond llwybr cul. Mae *Ala Las* bellach yn enw ar glwstwr bychan o dai modern ar gyrion y dref wrth fynd i gyfeiriad Y Felinheli. Cyn adeiladu'r tai cyfeiriai'r enw at y llwybr sydd yn dal i fynd o'r ffordd fawr dros bont yr hen reilffordd i lawr at y môr a'r rhimyn o draeth tuag at Waterloo Port. Gwelir o

gofnodion y Cyfrifiad yn 1841 ac 1851 fod *Ala-las* yn enw ar dŷ hefyd ar un adeg. Yn Lloegr defnyddid term cyfatebol, sef *green lane*, am lôn fach gul a gwelltglas yn tyfu arni.

TWTHILL

Craig fawr a'r ardal oddi tani yng Nghaernarfon yw *Twthill.* Benthyciad o'r Saesneg *toothill*, sef 'gwylfa ar fryn', yw'r enw. Mae'n gweddu'n dda iawn i'r safle gan y ceir golygfeydd gwych i bob cyfeiriad o ben y graig. Mae'r enw *Twthill* yn digwydd hefyd yn Rhuddlan, Harlech a Chonwy, hwythau i gyd, fel Caernarfon, yn drefi â chestyll a garsiwn ynddynt lle byddai galw am wylfa i rybuddio am ddyfodiad y gelyn.

Bu cryn amrywio ar sillafiad yr enw *Twthill* dros y blynyddoedd. Mae'r sillafiad arferol bellach yn cyfuno Cymreigiad o'r sillaf gyntaf > *twt,* ac yn cadw'r ffurf Saesneg yn yr ail sillaf *hill.* Y cyfeiriad cynharaf a welais yw *le Tothille* o 1399. Nododd John Speede *Tuttle Strete* ar ei fap yn 1610 ar stryd a oedd yn cyfateb i leoliad Penrallt Uchaf heddiw. Ni chlywch chi neb yng Nghaernarfon yn sôn am 'ddringo Twthill'. 'Mynd i ben Twthill' a wna'r Cofis bob tro. Mae craig Twthill yn disgyn yn ddibyn serth i lawr tuag at y ffordd osgoi yng nghefn gwesty'r Celtic Royal. Enw plant y dref ar y clogwyn hwn oedd 'Crachan Gam', a chredid bod gwrach wedi byw mewn agen yn y graig ar un adeg. Wrth gwrs, sylweddolasom yn ddiweddarach mai llurguniad o 'Y Wrachen Gam' oedd yr enw hwnnw.

Cofnodwyd cae ac iddo enw hynod o ddiddorol yn Nhwthill yn Rhestr Pennu'r Degwm yn 1841, sef *Caer llias.* Ystyr *llias / lleas* yw 'marwolaeth, angau, lladdfa, cyflafan'. Mae tuedd boblogaidd ynom ni'r Cymry wrth sôn am enwau lleoedd i briodoli brwydrau i fannau heb unrhyw sail hanesyddol. Nid oes raid ond gweld yr elfennau *cad–* neu *coch* i greu hanes cyffrous am ryw hen frwydr waedlyd hollol ddychmygol. Fodd bynnag, fe fu ysgarmes go iawn yn Nhwthill ar 16 Hydref 1461 yn ystod Rhyfel y Rhosynnau pan wnaeth Lancastriaid gogledd Cymru eu gwrthsafiad olaf dan Jasper Tudor. Ni wyddom faint o gyflafan a fu, ond fe lwyddodd Jasper i ddianc i Iwerddon. Efallai mai atgof am y frwydr hon oedd yn enw *Caer* llias gynt.

MAESINCLA

Gwelir yr enw hwn mewn sawl man yng Nghaernarfon heddiw gan gynnwys stad dai *Maesincla, Plas Maesincla,* sydd bellach yn gartref i'r henoed, ac *Ysgol Gynradd Maesincla.* Daw'r elfen *Incla* o'r cyfenw Saesneg *Hinkley* neu *Hinckley.* Gwyddom fod gŵr o'r enw *Peter de Hunkelegh* yn dal wyth erw o dir yng Nghaernarfon yn 1306 a 1308. Mae Melville Richards yn cyfeirio at gofnod ohono fel *Petrum de Hinkeleia* yn 1304/5 ac yn awgrymu ei fod yn aelod o deulu o Saeson a ddaethai i Gaernarfon yn sgil y Goncwest, o bosib o Hinckley, Swydd Gaerlŷr. Nodir enw *Peter de Hinkele* fel cwnstabl Castell Caernarfon yn 1306–7. Cyfeiriodd Melville Richards hefyd at gofnod o ryw *Gwilym Hinkley* yn 1344, ac mae'r enw Gwilym yn awgrymu fod y teulu wedi ei gymreigio, efallai trwy briodas.

Y cyfeiriad cynharaf a welwyd at y *maes* yn *Maesincla* yw *hyngekelesfylde,* sef 'Hinkley's field', o 1438–9. Felly, cyfieithiad llythrennol o 'Hinkley's field' yw 'Maes Incle'. *Maysyncle* yw'r ffurf erbyn 1584. *Inkley* neu *Incle* yw ffurf yr ail elfen yn y cofnodion cynharaf gan ►

► gadw'n glosiach at ynganiad yr enw Saesneg. Y tro cyntaf i'r terfyniad *–a* ymddangos yw yn y ffurf *maes Inkla* yn asesiad y Dreth Dir yn 1770. Yn 1824 ceir *Maesyncle / Maesincla.* Ar ôl hynny y ffurf *Maesincla* a geir ym mwyafrif y cofnodion. Yr hyn a welwn yma yw cymreigio graddol ar yr enw Saesneg *Hinkley* trwy droi'r terfyniad o *–ey* i *–e* ac yna i *–a.* Gwelir yr un peth yn digwydd i'r cyfenw *Bulkeley* yn enw *Cae Ellen Bulkeley* ym mhlwyf Llanwnda mewn ffurfiau megis *Cae Helen Bwcla,* neu'r cyfenw *Bisley* a drodd yn *Bisla* yn *Nhyddyn Bisla/Bisle* ym mhlwyf Llanrug.

CANNWYLL YN OLAU

GERAINT PERCY JONES

STORI JOHN PULESTON JONES, Y PREGETHWR DALL GAN HARRI PARRI

Deunaw mis oed oedd John Puleston Jones pan gollodd ei olwg o ganlyniad i ddamwain. Yr oedd hynny yn 1863. Y mae stori bywyd y pregethwr dall, fel y cyfeirid ato - un o heddychwyr mawr Cymru - yn un ryfeddol. Yn y gyfrol *Cannwyll yn Olau*, a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Wasg y Bwthyn, y mae'r Parchedig Harri Parri wedi llunio campwaith. Yn fy marn i, hwn ynghyd â nofel gampus Gwynn ap Gwilym, *Sgythia*, yw'r ddau lyfr gorau i'w cyhoeddi yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn. Dyma weithiau dau awdur sydd yn feistri ar ysgrifennu Cymraeg clir a graenus.

Y mae nifer o lyfrau Harri ar y silffoedd gartref a phob un wedi rhoi pleser mawr i mi. Y mae *Cannwyll yn Olau* yn goron ar ei gyfraniad i'n llenyddiaeth ers diwedd y Chwedegau. O edrych ar y gyfrol ar fwrdd mewn siop y mae'n drawiadol ac o redeg trwyddi yn y dwylo y mae'n hoelio sylw yn syth. Haedda Gwasg y Bwthyn a'r dylunydd, Elgan Griffiths, ganmoliaeth arbennig. Y mae'r fformat yn ddiddorol a thrwy'r llyfr ceir tua phedwar ugain o luniau o ansawdd rhagorol a phob un yn cyfrannu at bleser darllenydd. Hoffais i yn fawr y ffordd y trefnwyd ac y rhannwyd pob un o'r penodau yn rhaniadau sy'n ein cymell i fynd ymlaen â'n darllen. Yn aml iawn mewn llyfrau ar bobl y mae'r Goeden Deulu yn gymhleth o fanwl. Yma gosodwyd manylion teulu John Puleston Jones yn glir o ddengar a'r lluniau yn cyfrannu at y diddordeb. I bob un ohonom sy'n edmygu ffordd gofiadwy Harri Parri yn y pulpud mewn pregeth neu ar lawr stafell mewn darlith a sgwrs nid yw'n syndod fod teitlau'r deuddeg pennod yn drawiadol o syml ac yn llawn arwyddocâd.

Gall nodiadau ar waelod tudalen, neu hyd yn oed ar ddiwedd pennod, fod yn ymyrraeth ar rediad cynnwys. Yn *Cannwyll yn Olau* ceir 287 o nodiadau ar ffynonellau yn y cefn a phob un yn cyfoethogi ein mwynhad.

Y mae dilyn gyrfa Puleston o'i ddyddiau cynnar yn y Bôrd Sgwl ac Ysgol Tŷ Dan

Domen ac yna Coleg y Methodistiaid yn y Bala a dilyn hynny i'r Worcester College for the Blind ac oddi yno i Brifysgol Glasgow lle'r enillodd ysgoloriaeth i Goleg Balliol, Rhydychen a graddio yno gyda gradd dosbarth cynaf mewn Hanes Diweddar yn haf 1888 yn rhyfeddod pur. Yn Glasgow a Rhydychen cafodd gwmni Owen M. Edwards. Diddorol canfod mai cymeriad mewnblyg ac ansicr ohono'i hun oedd O.M. yr adeg yna a bod Puleston 'yn haul pob cwmni a'i chwerthin parod ac uchel i'w glywed yn gyson'.

I ni ym Mangor y mae'r bennod 'Yn Gymro Pur yn Princes Road' yn hynod o ddiddorol. Eglwys Saesneg Bresbyteraidd, wrth gwrs, oedd Princes Road, un o achosion Saesneg yr enwad y cofiwn i Emrys ap Iwan ei fflangellu mor llym. Bu'r pum mlynedd a dreuliodd Puleston yn weinidog yma yn llawn digwydd iddo. Fis Rhagfyr 1890 bu iddo briodi ac yng ngeiriau Harri Parri bu Annie 'yn gystal â llygaid iddo'. Un o'r pethau cyntaf a wnaeth wedi'r briodas oedd dysgu gwyddor yr iaith Roeg a phob bore treuliai ddwyawr neu dair yn darllen i'w gwr yn yr iaith honno. Ym Mangor yr oeddynt pan anwyd eu dau blentyn, Alun Puleston yn 1891 a Martha Myfanwy yn 1895. Ni fwriadodd Puleston aros yn hir mewn eglwys Saesneg ac yn Rhagfyr 1895 fe'i denwyd gan Gymreigrwydd bro'r chwareli i fod yn weinidog ar Gapel Dinorwig.

I fwynhau cyfoeth cyfareddol o ddeunydd darllenwch *Cannwyll yn Olau*. Y mae'n gampwaith o gyfrol gan y Parchedig Harri Parri, un o'n llenorion cyfoes mwyaf meistrolgar. Y mae'n fargen am £12.



Cario'r groes drwy Stryd Fawr Bangor yng ngorymdaith flynyddol y Groglith gan Cytûn Bangor. Owain Davies, ein Gweithiwr Plant, Ieuenctid a Theuluoedd, oedd un o'r milwyr Rhufeinig.

EMYN A DARLLENIAD

	EMYN	DARLLENIAD
5 Mai	DIM YSGOL SUL	
12 Mai	397 Tomos Roberts	Mathew 7: 7–12 *(BCND)* Siôn Roberts
19 Mai	Oedfa deulu derbyn aelodau	
26 Mai	HANNER TYMOR	
2 Mehefin	HANNER TYMOR	
9 Mehefin	129 Hanna Gwynn Edwards	Salm 50: 1– 6 (beibl.net) Owain Edwards
16 Mehefin	373 Niclas Roberts	Salm 148: 1–6 *(BCND)* Mati Roberts
23 Mehefin	150 Hanna Mair	Salm 62: 5–8 (beibl.net) Danial Jones
30 Mehefin	374 Bedwyr Llŷr	Salm 19: 1–6 *(BCND)* Llio Eurgain
7 Gorffennaf	OEDFA BEN TYMOR/TRIP YSGOL SUL	

BCND – Y Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig *neu* Y Beibl Cymraeg Newydd

Diolch yn fawr am eich cyfraniad

Os bydd plentyn neu deulu'n newid Sul gyda rhywun arall, hysbyser Mari Lois – dwjmlw@hotmail.com / 07980 287933. Diolch.

COFIWCH AM DUDALENNAU BEREA AR Y GWEFANNAU!

www.gofalaethbangor.org / www.henaduriaetharfon.org

CRISTION

Mae'r cylchgrawn ar ei newydd wedd dan olygyddiaeth y Parch. Owain Llŷr Evans, Caerdydd. Mae'n ddiddorol a lliwgar a phob rhifyn yn dilyn thema arbennig.

Cyhoeddir chwe rhifyn bob blwyddyn, a chan ein bod fel eglwys yn archebu 15 neu fwy o gopïau gellir eu cael am bris gostyngol o £8 y flwyddyn.

Os hoffech dderbyn *Cristion* rhowch eich enw a'ch arian i Dr Gwilym Roberts, os gwelwch yn dda.

Y DYDDIADUR

Cofiwch:
MAI A MEHEFIN
Bob nos Lun

CIC BANG BACH:
6.15–7.15
CIC BANG:
7.30–9.00

MAI	
Mercher 1af, prynhawn a hwyr	SASIWN GENHADOL CHWIORYDD Y GOGLEDD Capel y Groes, Wrecsam
Mawrth 14, 9.30-3.00	UNDEB ATHROFA'R BALA Seion, Llandudno
Mawrth 14, 6.30	HENADURIAETH ARFON Bwlan, Llandwrog
Sul 19, 10.00	OEDFA DEULU AR FFURF 'MOLIANT Y PLANT' Gwobrwyo'r Llafur Cof a derbyn rhai o'r ieuenctid yn aelodau.
MEHEFIN	
Iau 20, 7.00	CYFARFOD BLAENORIAID
GORFFENNAF	
Sul 7	TRIP YR YSGOL SUL i ddilyn yr Oedfa Bentymor

CORNEL CODI GWÊN

GLYN LLOYD JONES

Y GYNNAU MAWRION!

Yn ei lyfr *Afal Drwg Adda,* sydd â'r is-deitl 'Hunangofiant Methiant', a'i gais am y 'Diocesan Scholarship' newydd ei wrthod gan Warden Hostel yr Eglwys, Bangor Uchaf, ysgrifennodd Caradog Prichard:

'A dyna ddiwedd ar fy mreuddwyd o gael y teitl "Ei Ras y Parchedicaf Caradog Prichard, Archesgob Cymru".'

Yna wrth gerdded i lawr am Stesion Bangor, chwarddodd wrth gofio fod Owi Jos wedi cael ei ordeinio'n offeiriad yn yr Eglwys.

'Glywsoch chi am Owi ni wedi cael ei neud yn Ganon?' meddai Mrs Jos wrth Jên Wilias Drws Nesa.

'Bobl annwyl, naddo,' atebodd Jên.

'Go dda yntê - mae o 'di g'neud yn well na Paul, yntydi? Dim ond Pistol oedd Paul yntê?'

Y CLYBIAU'N DRIW I'W HENWAU

Cafwyd diwedd da i dymor clybiau CIC Bach, CIC Felin a CIC Bang wrth i'r aelodau fynd i Ganolfan Brailsford i chwarae pêl-droed. CIC Bach a CIC Bang a welir yma. Cafwyd llawer o hwyl a digon o goliau!